

# Nodweddion Diddorol

**A Yr Afon Dyfi**
Golygfeydd da dros yr afon.

**B Llanwrin**
Enwyd y pentref am ei eglwys, a gysegrwyd i Sant Gwrin. Fe'i hadeiladwyd ddiwedd y Canol Oesoedd, a 1864 oedd yr adeg ddiweddaraf iddi gael ei hadnewyddu. Mae'r fynwent yn gron, nodwedd sydd yn aml yn awgrymu seiliau hynafol.

Ar un tro roedd Llanwrin yn gymuned ffyniannus, gyda gof, tafarn a siop y pentref, ond mae'r cyfan wedi cau ers achau.

**C Olwyn Ddŵr Maesycriau**
Yn gynnar yn y 20fed ganrif, ychwanegwyd olwyn ddŵr at y beudy i droi'r peiriannau dyrnu (i wahanu'r grawn mewn cnydau megis gwenith).

**D Ceinws**
Daeth Canolfan Ddiwydiannol Dyfi, Ceinws, a adeiladwyd ar gyfer y di-waith (o Lerpwl yn bennaf), i ddwylo'r Comisiwn Coedwigaeth, gan ddod yn ganolfan ar gyfer gweithrediadau Coedwig Dyfi. Roedd yno 14 o dai ar gyfer coedwigwyr a gweithwyr coedwig ynghyd ag eglwys, neuadd bentref, llyfrgell, a modurdy. Roedd y Gwersyll yn gymuned o'r iawn ryw, ond bellach nid yw'n cael ei defnyddio ar y cyfan, heblaw am fel storfa.


© Llun/Picture Susan Roberts


© Llun/Picture Susan Roberts



# Points of Interest

**A The Dyfi**
Good views of the river.

**B Llanwrin**
The village is named after its church, dedicated to St Gwrin which dates from late medieval times and was last restored in 1864. The churchyard is circular, often indicating an ancient foundation.

Once a thriving community with its own blacksmith, pub and village shop, all have long since closed.

**C Waterwheel at Maesycriau**
During the early 20th century a waterwheel was added to the cow house to power machinery for threshing (separate the grain from the rest of a crop such as wheat).

**D Ceinws**
The Dovey Instructional Centre at Ceinws, originally constructed for the unemployed (many from Liverpool), was taken over by the Forestry Commission and became the centre of operations for Dyfi Forest. There were fourteen houses for the foresters and forest workers, a church, village hall, library, and a garage. The camp was a community in itself, but is now largely unused, apart from storage.

Clawr/Cover Susan Roberts

© Lluniau/Pictures Jeremy Moore



# Taith Gerdded Ceinws i Llanwrin

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# Ceinws to Llanwrin Walk



# Taith Ceinws - Llanwrin Walk

**Dechrau:** Pentref Ceinws
**Cyfeirnod Grid:** SH760 059
**Pellter:** 11.3 km - 7 milltir (0.7 km - 0.4 milltir ychwanegol i Lanwrin)
**Gradd:** Canolig / Anodd
**Tirwedd:** Llwybrau cadarn, caeau agored
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer - 215
**Lluniaeth:** Tafarn Dwynant yng Ngheinws

1 O'r blwch ffôn, trowch i'r chwith i fyny'r bryn - mae'r arwyddbost yn cyfeirio at Ael-y-bryn. Ewch ymlaen trwy giât a dilyn y trac i fyny. Ychydig cyn i chi gyrraedd ail giât, trowch i'r dde i fyny'r banc gan ddilyn y ffens ar y chwith i gerdded o gwmpas cefn y tŷ cyn troi i'r chwith, ac wedyn i'r dde, i ddilyn llwybr i lawr y banc i groesi nant fach. Dilynwch y lôn werdd o gwmpas ochr y bryn cyn troi i'r chwith trwy giât i gerdded yn groeslinol i lawr y bryn i groesi pompren.

2 Cerddwch i fyny i'r ffordd a throwch i'r dde, wedyn yn syth ymlaen tan i chi gyrraedd cilfan fawr ar y chwith a dwy bont ar y dde. Ewch dros y bompren bellaf gan gerdded i'r chwith i fyny'r bryn trwy giât. Pan ddaw'r trac allan ar drac arall, trowch i'r chwith i fynd trwy giât a chroesi nant.

3 Ychydig cyn adfeilion Cae Cwta, trowch yn sydyn i'r dde i fyny ac i mewn i'r coed. Ar ddiwedd y coetir, ewch trwy giât a cherdded i fyny'r bryn i fynd trwy fynedfa giât ar y chwith cyn troi ychydig i'r chwith i ddilyn trac anamlwg. Ewch trwy giât a cherdded ar hyd llwybr dynodedig i gyrraedd trac clir wrth giât. Ewch trwy'r giât gan ddilyn y trac i lawr trwy giâtiau i gyrraedd lôn tarmac.

4 Trowch i'r dde ac wedyn yn syth i'r chwith i gerdded i fyny trwy giât ac ymlaen heibio tai allan Ysgubor Fraithwen. Ewch trwy'r giât ar y chwith ac wedyn giât arall ymhellach ymlaen cyn cymryd y llwybr i'r chwith o flaen giât arall i ddilyn y llwybr i fyny'r bryn. Gyda'r ffens ar y dde, ewch trwy giât mochyn ac wedyn dilynwch y ffens ar y chwith i fynd trwy giât arall. Pan gyrhaeddwch ddiwedd y ffens, ewch yn syth ymlaen i fynd i lawr y bryn trwy'r giât ar y chwith A. Gyda'r gwrych ar y chwith, ewch yn syth ymlaen i fynd i lawr trwy giât arall ac wedyn daliwch i gerdded i lawr tuag at gornel dde'r cae ar y gwaelod, i gerdded i lawr y banc.




5 Pan gyrhaeddwch y trac, trowch i'r chwith i fynd i Lanwrin B; fel arall, trowch i'r dde i fynd i fyny'r bryn tan fod y trac yn troi'n sydyn i'r chwith wrth ochr arwyddbost. Trowch i'r dde yn y fan hon, ac wedyn yn syth i'r chwith i ddringo'r bryn serth gan gadw at chwith y trac gwelltog i nesáu at y nant ar y chwith. Pan gyrhaeddwch y ffens ar y top, trowch i'r chwith ac wedyn i'r dde trwy giât wrth ochr coedydd conwydd. Ewch yn syth i fyny'r bryn a thrwy giât ar y dde cyn troi'n syth i'r chwith i gerdded i lawr y banc trwy giât. Ewch yn syth ymlaen i fynd trwy giât ar ffin y coetir, ac wedyn i lawr y banc serth trwy giât yn y gornel dde ar waelod y cae. Ewch trwy iard y Gelli a thrwy giât cyn troi i'r chwith yn syth wrth ochr arwyddbost i gerdded i lawr y banc gan droi ychydig i'r dde i groesi pompren.

6 Trowch i'r chwith wrth y trac i gerdded i lawr ac o gwmpas troad sydyn i'r chwith trwy giât i gyrraedd y ffordd darmac ac wedyn trowch i'r dde.

7 Ewch ymlaen ar hyd y ffordd i fynd heibio mynedfa Esgair Hir cyn troi i'r chwith wrth y gyffordd i groesi'r nant, ac wedyn i fyny trwy giât i fynd heibio ffermdy Maesycriau ac ymlaen trwy giât C i ddilyn llwybr clir i fyny'r bryn. Ewch trwy ddwy giât arall ac i fyny tuag at bant yn y bryn gan fynd heibio giât a llwybr ar y chwith. Ewch trwy'r giât ar y dde yng nghornel y cae ac i fyny'r banc cyn troi i'r chwith i gerdded ar hyd trac clir trwy dair giât.

8 Ar ddiwedd y ffens ychydig ar ôl y drydedd giât, trowch i'r dde i lawr y bryn D. Cadwch y ffens ar y dde i fynd trwy giât ar waelod y cae, cyn dychwelyd o gwmpas ochr y tŷ ac yn ôl i'r cychwyn.


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014






Llun/Picture Susan Roberts



**Start:** Ceinws village
**Grid Reference:** SH760 059
**Distance:** 11.3 km - 7 miles (additional 0.7km - 0.4 miles to Llanwrin)
**Grade:** Moderate / Strenuous
**Terrain:** Firm tracks, open fields
**Maps:** OS Explorer 215
**Refreshments:** Dwynant Pub at Ceinws

1 From the telephone kiosk turn *L* uphill signposted Ael-y-bryn. Walk ahead to go through a *G*, and follow the track up. Just before you reach a second *G* veer *R* up the bank and follow the fence on your *L* to walk around the back of the house before turning *L*, then *R* to follow a path down the bank to cross a small stream. Follow the green lane around the side of the hill before turning *L* through a *G* to walk diagonally downhill to cross a *FB*.

2 Walk up to the road and turn *R*, then continue until you reach a large lay-by on your *L* and two bridges on your *R*. Cross the furthest wooden *FB* and walk *L* uphill through a *G*. Where the track emerges on to another track, turn *L* to go through a *G* and cross stream.

3 Just before Cae Cwta ruin, turn sharp *R* up into the trees. At the end of the woodland go through a *G* and walk uphill to go through *L* gateway then continue up veering *L* to follow a faint track. Go through a *G*, and walk along a defined path to reach a clear track at a *G*. Go through the *G* and follow the track down through *Gs* to reach a tarmac lane.

4 Turn *R* then immediately *L* to walk up through *G* and on past outbuildings at Ysgubor Fraithwen. Go through the *G* on *L*, then another *G* further on before forking *L* in front of another *G* to follow the path uphill. Walking with the fence on your *R* go through a kissing *G*, then follow *LH* fence to go through another *G*. When you reach the end of the fence, continue ahead to go downhill through *L* hand *G* A. With the hedge on your *L* continue down to go through another *G*, then on down towards the bottom *RH* corner of the field, to walk down the bank.

5 At the track, turn *L* to go to Llanwrin B, otherwise turn *R* uphill to where the track bends sharply *L* next to a waymark post. Turn *R* here then immediately *L* to climb up the steep hill, keeping *L* of the grass track to close in with the stream on your *L*. When you reach the fence at the top turn *L*, then *R* through a *G* next to some pine trees. Walk directly uphill and go through a *G* on your *R*, before turning immediately *L* to walk down the bank through a *G*. Walk ahead to go through a *G* on woodland boundary, then down the steep bank through a *G* in the bottom *RH* corner of the field. Walk through Gelli farmyard and through a *G*, before turning immediately *L* next to a marker post to walk down the bank veering *R* to cross a *FB*.

6 Turn *L* at the track to walk down and around a sharp *LH* bend through a *G* to reach the tarmac road then turn *R*.

7 Continue along the road to pass the entrance for Esgair hir before turning *L* at the fork to cross the stream, then up through a *G* to pass Maesycriau farmhouse and on through a *G* C to follow a well defined path uphill. Go through another two *Gs* and head up towards a dip in the hill passing a *G* and track on the *L*. Go through the *RH* gate in the field corner and up the bank before turning *L* to walk along a well defined track through 3 *Gs*.

8 At the end of the fence just after the 3rd *G*, turn *R* downhill D. Keep the fence on your *R* to go through a *G* at the bottom of the field, before retracing your steps around the side of house and back to the start.

